# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Plas y Dderwen**

**Parc Cilddewi Tre Ioan**
**Caerfyrddin**
**SA31 3HP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/05/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Plas y Dderwen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal a Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Barchester Healthcare Homes Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 69 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15.10.2018 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.’ |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion unigol drwy arweinyddiaeth a rheolaeth ymroddedig a thîm o staff ymrwymedig. Mae iechyd a llesiant unigol y bobl yn ganolog i'r rhai sy'n darparu'r gofal a'r cymorth. Gwnaeth y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau gadarnhau hyn. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae'n helpu'r bobl i feithrin cydberthnasau cymdeithasol. Mae amrywiaeth o brosesau monitro ac archwilio ar waith, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda.

## Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau un i un a gweithgareddau grŵp o'u dewis. Dywedodd un person wrthym, *“there is always something to do”* (mae rhywbeth i'w wneud bob amser). Mae'r cofnodion gofal yn adlewyrchu anghenion a dewisiadau unigol. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i wneud yn siŵr bod yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd yn rhan o'r broses o gynllunio ac adolygu'r gofal a ddarperir. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gofyn am farn y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn ystod ymweliadau wyneb yn wyneb ac ymweliadau rhithwir. Mae gwybodaeth am sut i godi pryder ar gael i'r bobl pe bai angen iddynt wneud hynny. Dywedodd un o'r bobl wrthym, *“I will speak to the manager if I have any concerns”* (byddaf yn siarad â'r rheolwr os bydd unrhyw bryderon gennyf), a dywedodd un o'r perthnasau wrthym, “*I have had a copy of the homes complaints procedure”* (rwyf wedi cael copi o weithdrefn gwyno'r cartref).  Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely ag eitemau sy'n bwysig iddynt megis dodrefn, ornaments, ffotograffau, posteri a dillad gwely. Mae'r bobl yn cael cynnig dewis o brydau bwyd a diodydd, ac mae opsiynau amgen ar gael yn hawdd.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag wynebu risg o niwed a chamdriniaeth. Roedd y gweithwyr gofal yn siarad am y bobl sy'n byw yn y cartref mewn modd gofalgar, ac maent yn deall yr unigolyn, ei anghenion a sut i'w diwallu yn dda. Mae'r gweithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl ac yn eu cefnogi mewn modd gofalgar ac ystyriol. Mae mesurau rheoli heintiau priodol ar waith ac mae'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau yn glir. Mae'r gwasanaeth yn lân heb unrhyw arogleuon drwg, ac mae rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw a gwelliannau. Mae mesurau recriwtio yn sicrhau bod gan y staff sy'n gweithio yn y cartref y sgiliau cywir a'u bod yn darparu gofal yn y dull cywir. Mae'r cartref yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl.

Mae'r bobl yn mwynhau cydberthnasau iach. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi meithrin cydberthnasau cymdeithasol ers symud i fyw yn y gwasanaeth. Dywedodd un o'r bobl wrthym, “*I meet X for lunch, we have a table of our friends, and this makes meal times all the more enjoyable*” (Rwy'n cwrdd ag X am ginio. Rydym yn eistedd wrth fwrdd gyda'n ffrindiau, ac yn mwynhau prydau bwyd yn fwy oherwydd hynny). Mae'r bobl yn cwrdd yn yr ardal gymunedol ar y llawr gwaelod. Gwelsom grwpiau o bobl yn sgwrsio, yn chwerthin ac yn cael sgyrsiau siriol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Caiff gofal a chymorth eu darparu gan staff ymroddedig sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi. Siaradodd aelodau o'r staff yn frwdfrydig am ofalu am y bobl a gweithio yn y gwasanaeth. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, "*we have had a difficult time during the Pandemic, but looking after our residents and keeping them safe is our priority"* (mae pethau wedi bod yn anodd yn ystod y pandemig, ond ein blaenoriaeth yw gofalu am ein preswylwyr a'u cadw'n ddiogel). Roedd y staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd cadarnhaol a gofalgar drwy gydol yr ymweliad arolygu. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael, gan ganmol y staff gofal; *"the carers are lovely, they work so hard"* (mae'r gofalwyr yn hyfryd, maent yn gweithio mor galed)*, "all the staff are marvellous, they look after us very well"* (mae'r holl staff yn wych, maent yn gofalu amdanon ni'n dda iawn.

Mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid bwyd o bum seren, gan gynnig amrywiaeth o fwydydd a dewis o fwydydd bob dydd. Defnyddir platiau, mygiau a chyllyll a ffyrc mewn lliwiau gwrthgyferbyniol er mwyn helpu'r bobl i fwyta ac yfed. Mae prydau bwyd i'w gweld yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol iawn ac yn llawn hwyl. Gwelsom brydau bwyd a oedd yn edrych yn flasus yn cael eu cludo i bobl a oedd am fwyta yn eu hystafelloedd eu hunain. Dywedodd dau unigolyn wrthym, "*the meals are top notch!"* (mae'r prydau bwyd yn wych!) a*"beautiful"* (maen nhw'n hyfryd).

Mae lefelau staffio digonol ar waith i ddiwallu anghenion gofal y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael digon o amser i gefnogi'r bobl yn briodol. Mae'r staff yn ymateb i geisiadau gan y bobl yn amserol, ac mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar, yn barchus ac yn bwyllog.

Gall y staff gofal weld cynlluniau sy'n nodi'r cymorth sydd ei angen ar y bobl i gadw'n iach. Mae cynlluniau gofal yn rhoi manylion clir am anghenion y bobl ac ymdeimlad da o'r unigolyn. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i ddangos sut mae'r unigolion a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn eu gofal. Mae gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn ymwneud â'r bobl, a chaiff hyn ei ddogfennu yn eu cofnodion gofal. Mae mesurau priodol ar waith ar gyfer storio, rhoi a chofnodi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o arferion meddyginiaeth diogel, a gwybodaeth dda am y defnydd o wahanol feddyginiaethau er mwyn helpu pobl sy'n byw gyda dementia.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan i leihau'r risg o haint. Wrth gyrraedd, gofynnwyd i ni ddangos Prawf Llif Unffordd dilys. Gwnaethom roi ein manylion cyswllt, a gwnaeth y staff gymryd ein tymheredd a'i gofnodi. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ac yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r rheolwr wedi gweithio gydag Iechyd yr Amgylchedd a'r Bwrdd Iechyd Lleol i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn cyflawni ei rwymedigaethau mewn perthynas â mesurau atal a rheoli heintiau. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, a mae'r staff gofal yn deall y rhain, yn ogystal â'u cyfrifoldebau o ran amddiffyn y bobl rhag heintiau, yn glir.

## Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau'r risg i iechyd a diogelwch y bobl cymaint â phosibl. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra i'r unigolyn ac ar gael yn hawdd mewn argyfwng. Mae larymau argyfwng yn hawdd eu cyrraedd ac mae'r staff yn ymateb iddynt yn amserol pan fyddant yn seinio.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith o ganlyniad i'r pandemig, ac mae gorsafoedd diheintio a PPE ar gael ym mhob rhan o'r cartref. Mae gweithdrefnau profi am COVID-19 ar waith ar gyfer yr holl ymwelwyr sy'n dod i weld eu hanwyliaid yn y cartref. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunedol yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon.

Mae'r cartref yn sicrhau bod yr amgylchedd yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae cynllun y gwasanaeth yn ei gwneud yn bosibl i'r bobl ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt yn ddiogel. Mae'r addurn wedi'i gynllunio er mwyn ysgogi'r bobl a'u helpu i ddod o hyd i'w ffordd. Mae'r ardaloedd gardd yn ddiogel ac yn groesawgar, a gwelsom nifer o achosion o ryngweithio cadarnhaol ynddynt. Caiff yr ardaloedd cymunedol eu defnyddio'n dda, gan weithredu fel canolfan lle mae modd i'r bobl ymgynnull a chwrdd â'u ffrindiau i gael lluniaeth, diod a sgwrs. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli â dodrefn, addurniadau, ffotograffau a lluniau print. Mae'r gwasanaeth yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arwain a Rheoli

Mae trefniadau llywodraethu trylwyr ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cynnal ymweliadau Rheoliad 73 â'r gwasanaeth yn rhithwir ac wyneb yn wyneb yn ystod cyfnod y pandemig. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi rhoi copïau o adroddiadau i AGC sy'n nodi ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'i ymweliadau â'r gwasanaeth. Gwnaeth y staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth gadarnhau hyn gyda ni. Mae'r rheolwr a'r uwch-reolwyr yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau. Caiff y camau sydd angen eu cymryd sy'n deillio o'r archwiliadau hyn eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n wybodus, yn gymwys ac yn addas i ofalu am y bobl sy'n byw yn y cartref.  Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr a'r sefydliad; *"the manager is very good, she listens to what you have to say. She is very knowledgeable"* (mae'r rheolwr yn dda iawn, mae'n gwrando ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud. Mae hi'n wybodus iawn).  Maent yn teimlo'n hyderus eu bod yn gallu siarad ag aelod o'r uwch-dîm os bydd pryder ganddynt, ac y bydd y tîm hwn yn gwrando arnynt ac yn cymryd camau; *"I can speak to the nurse or the manager if I have a concern. I have confidence that I would be listened to"* (Gallaf siarad â'r nyrs neu'r rheolwr os bydd pryder gen i. Rwy'n hyderus y byddent yn gwrando arnaf).  Gwelsom hefyd fod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol, a'u bod yn gallu egluro eu cyfrifoldebau i ni o ran lleihau lledaeniad COVID-19.

Mae cofnodion y staff yn dangos eu bod yn cael sesiynau sefydlu cynhwysfawr, sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol. Mae'r staff yn cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol. Roedd matrics hyfforddiant y gwasanaeth yn cadarnhau hyn. Dywedodd y staff gofal wrthym am yr hyfforddiant roeddent wedi ei gwblhau, a gallent ddangos dealltwriaeth dda o'u rôl o ran diogelu unigolion a gweithdrefnau symud a chodi a chario diogel. Mae polisïau a gweithdrefnau sy'n gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar waith i gefnogi'r staff. Mae cofnodion recriwtio'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth a'r gwiriadau gofynnol.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Dim | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/08/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi